



Sut i ddod o hyd i Llwybr Gogledd y Berwyn

Mae Llwybr Gogledd y Berwyn yn rhedeg am 24km/15 milltir rhwng Corwen a Llangollen. Saif y nall dref a'r llall ar briffordd yr A5 (Llundain-Caerdybi) ar ochr Cymru o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Mwy o wybodaeth

Canolfan Croeso Llangollen ☎ 01978 860828
Corwen 'Siop Un Alwad' ☎ 01490 412378
Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
☎ 01352 810614

Ebost: loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk
www.denbighshire.gov.uk/countryside

Mapiau

OS Explorer (Lliw Oren), 255 Llangollen a Mynyddoedd y Berwyn

Bysiau

Grŵp Cludo Teithwyr, Cyngor Sir Ddinbych
☎ 01824 706968
www.denbighshire.gov.uk/highways

Trenau Stem

Rheilffordd Stem Llangollen ☎ 01978 860979
www.llangollen-railway.co.uk

Teithiau Camlas

Glanfa Llangollen ☎ 01978 860702
www.horsedrawnboats.co.uk

Llety

Gwybodaeth Twristiaeth a Llety
www.visitwales.com
www.borderlands.co.uk

Hawlfraint © Cyngor Sir Ddinbych 2007. Cedwir pob wall

Mapiau: Carl Rogers
Ffotograffau: (oni nodir fel arall): Carl Rogers
Ffotograffiaeth bywyd gwyllt: Simon Booth Photography ac English Nature
Teiposod ac Atgynhyrchu: Jane Searle
Scripting: Lorna Jenner

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau fod yr wybodaeth sydd ar y daflen hon mor gywir ag y bo modd, ond ni all yr awduron na'r cyhoeddwyrr dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o unrhyw wallau.

How to find the North Berwyn Way

The North Berwyn Way runs for 24 km/15 miles between Corwen and Llangollen. Both towns are on the main A5 (London-Holyhead) road, just inside the Welsh-English border, in North Wales.

Further Information

Llangollen Tourist Information Centre
☎ 01978 860828
Corwen 'One Stop Shop' ☎ 01490 412378
Denbighshire Countryside Service ☎ 01352 810614

Email: loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk
www.denbighshire.gov.uk/countryside

Maps

OS Explorer (Orange), 255 *Llangollen and the Berwyns*

Buses

The Passenger Transport Group, Denbighshire County Council ☎ 01824 706968
www.denbighshire.gov.uk/highways

Steam Trains

Llangollen Steam Railway ☎ 01978 860979
www.llangollen-railway.co.uk

Canal Trips

Llangollen Wharf ☎ 01978 860702
www.horsedrawnboats.co.uk

Accommodation

Tourist and accommodation information
www.visitwales.com
www.borderlands.co.uk

Copyright © Denbighshire County Council 2007. All rights reserved.

Maps: Carl Rogers
Photographs: (unless credited): Carl Rogers
Wildlife photography: Simon Booth Photography and English Nature
Typesetting & Repro: Jane Searle
Scripting: Lorna Jenner
Whilst every effort has been made to make this booklet as accurate as possible, neither authors nor publishers can accept any responsibility for the consequences of any errors.



Cerdded Llwybr Gogledd y Berwyn



Walk the North Berwyn Way

Ariannwyd y cynllun hwn yn rhannol gan y Dreth Agregau.
This project has been part funded by the Aggregates Levy.





Croeso

CROESO i **Lwybr Gogledd y Berwyn**. Dyma lwybr llinellol sy'n rhedeg am bymtheg milltir dros fynyddoedd gwyllt y Berwyn ar ochr ddeheuol yr Afon Ddyfrdwy.

Mae'r lwybr mewn pum rhan. Byddwch yn ei ddilyn drwy leoedd diarffordd a thirweddau rhyfeddol, mawreddog a heddychlon. Byddwch yn darganfod olion hen chwarelly llechi ble bu cenedlaethau o ddynion yn llafurio ar lethrau'r mynydd. Brasgamwch dros y grug ar y grib. Mwynhewch y golygfeydd rhagorol. Cewch flas ar heddwch a llonyddwch mawr yr unigeddau.

Mapiau: OS Explorer 255

Pellter: 24 km/15 milltir (y lwybr i gyd)

Amser: Gadewch ddiwrnod a hanner (y lwybr i gyd)

Graddfa: Y rhan gyntaf yn hawdd, ond y gweddill yn anodd.

Gwybodaeth Cysylltu

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych ☎ 01352 810614
Ebo: loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk
www.sirdinbych.gov.uk/cefnngwlad

I lwytho copi o'r arweiniad hwn i lawr, ynghyd â mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan:

www.lwybraudyffryndyfrdwy.com

Mae tair taflen ar gael sy'n dangos rhagor o deithiau cerdded o Gorwen i Llangollen:- Llwyr Dyffryn Dyfrdwy, Llwyr Hanes Llangollen a thair taith gylchol yng Nghorwen. (Ar gael o Ganolfan Croeso Llangollen a Siop Un Alwad Corwen).



Welcome

WELCOME to the **North Berwyn Way**, a 15 mile linear trail that climbs the wild North Berwyn Mountains to the south of the River Dee.

Made up of five sections, it takes you 'off the beaten track' through a fascinating landscape that is both majestic and peaceful. Discover the remains of the slate quarries where generations toiled high up on the mountainsides. Stride across the heather clad ridge. Enjoy the magnificent views. Savour the peace and solitude.

Maps: OS Explorer 255

Distance: 24 km/15 miles (full trail)

Duration: Allow 1½ days (full trail)

Difficulty: The first section is easy but all others are difficult.

Contact Information

Denbighshire Countryside Service ☎ 01352 810614
Email: loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk
www.denbighshire.gov.uk/countryside

For a downloadable version of this guide and further information see our website:

www.deevalleywalks.com

Three leaflets explore further walks from Corwen or Llangollen; The Dee Valley Way, The Llangollen History Trail and Three Circular Walks in Corwen. (Available from the Llangollen Tourist Information Centre and Corwen's 'One Stop Shop').





Cerdded Llwybr Gogledd y Berwyn

YN GYNTAF, dewiswch eich man cychwyn. Os rydych am gerdded y llwybr ar ei hyd am 15 milltir, yna dechreuwch naill ai yng Nghorwen neu yn Llangollen. O dref Corwen mae'r arweiniad hwn yn cychwyn ond gallwch gerdded **Llwybr Gogledd y Berwyn** o'r naill gyfeiriad neu'r llall. Os dewiswch fynd o Llangollen i Gorwen, cerddwch rannau'r llwybr o chwith. Os oes well gennych daith gerdded fyrrach, yna dewiswch ran neu ddwy yn ôl eich anghenion. Gallwch deithio i'r dechrau ar y trên stem neu gallwch ddod yn ôl ar y trên ar ôl cyrraedd pen y daith. Gallwch greu taith gylchol sy'n cyfuno Llwybrau Gogledd y Berwyn a Llwybr Dyffryn Dyfrdwy gan ddefnyddio'r llwybrau cysylltiol sydd yng Ngharrog ac yng Nglyndyfrdwy.


Mae'r llwybr yn 24 kilometr/15 milltir o bellter, gydag arwyddion cyfeirio arno. Caiff y llwybr ei rannau'n bum rhan, ac mae pob rhan yn cychwyn ac yn dod i ben mewn mannau sy'n hawdd eu cyrraedd. Llwybr heriol i gerddwyr profiadol yw'r llwybr, ac er mwyn ichi allu dilyn y llwybr yn ddiogel mae'n angenrheidiol bod gennych yr offer priodol, sef esgidiau cerdded cryfion, dillad cynnes, dillad glaw, map 1:25,000 OS Explorer (clawr lliw oren): **255 Llangollen a Mynyddoedd y Berwyn**.



Walking the North Berwyn Way

FIRST choose your starting point. To walk the full 15 miles start at either Corwen or Llangollen. Although the guide is set out from Corwen, the **North Berwyn Way** can be walked in either direction. To follow the route from Llangollen to Corwen, simply work through the sections in reverse order. For a shorter walk, select a section or two to suit your needs or travel to or from your walk by steam train. You can also create a circular route that combines the North Berwyn and the Dee Valley Ways using the link routes at Carrog and Glyndyfrdwy.

The 24 kilometre/15 mile route is waymarked, and split into five sections that start and finish at easily accessible points. It is a challenging route for experienced walkers and it is essential to be properly equipped with walking boots, waterproof clothing and the large scale 1:25,000 OS Explorer map (orange cover): **255 Llangollen and the Berwyns**, on which the route can be followed in greater detail.



Mwynhau'r Cefn Gwlad

Mynediad Agored



Ers mis Mai 2005 rhoddwyd hawl mynediad ar droed i ardaloedd helaeth o Gymru a fapiwyd o dan Ddeddf Hawliau Tramwyo Cefn Gwlad (CROW) 2000. Mae'r rhain yn cynnwys rhannau eang o Fynyddoedd y Berwyn. Defnyddia rhan fawr o Lwybr Gogledd y Berwyn Lwybrau Cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli gan eu cysylltu drwy gyfrwng llwybrau dros Dir Agored. Gall y tir hwn gael ei gau er mwyn rheolaeth y tir ar unrhyw adeg. Gofynnir ichi ufuddhau i unrhyw rybuddion. Gallwch gael gwybodaeth am Ardaloedd Mynediad Agored a thiroedd mynediad eraill yng Nghymru ar wefan Cyngor Cefn Gwlad Cymru www.ccw.gov.uk neu ffoniwch Linell Cymorth Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar 0845 130 6229 (Llun - Gwener).

Y Còd Cefn Gwlad

Dilynwch y Còd Cefn Gwlad pa le bynnag yr ewch i gael y gorau o'ch ymweliad a chynorthwyo i gynnal ein cefn gwlad yn awr ac i'r dyfodol.

- Byddwch yn ddiogel - cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch unrhyw giatiau ac eiddo fel yr oeddynt
- Diogelwch y planhigion a'r anifeiliaid, ewch â'ch sbwriel adref
- Cadwch eich cŵn o dan reolaeth agos
- Ystyriwch bobl eraill

Mynd â'r Ci

Gofynnir ichi sicrhau fod eich cŵn o dan reolaeth glos bob amser. Cymerwch ofal arbennig nad yw eich cŵn yn dychryn defaid ac wŷn neu'n ymyrryd â'r adar sy'n nythu ar y ddaear nac unrhyw fywyd gwyllt arall

Rhybudd

Peidiwch â mynd i mewn i unrhyw adfeilion chwarel na tharfu arnynt. Gallant fod yn ansaf. Dilynwch y llwybr sydd â saethau arno o gwmpas yr adeilad. Cyfrifoldeb yr unigolyn yw ei iechyd a'i ddiogelwch ei hunan. Dylid goruchwylio plant bob amser. Mae'r adeiladau ar dir a fapiwyd yn Dir Agored, nid ydynt yn eiddo Cyngor Sir Ddinbych, nac o dan eu rheolaeth.



Enjoying the Countryside

Open Access



Since May 2005 the right of access on foot has been granted to large areas of Wales mapped under the Countryside and Rights of Way (CROW) Act 2000. This includes large parts of the Berwyn Mountains. Much of the North Berwyn Way uses existing Public Rights of Way but these are linked by paths across Open Access areas. This land may be closed for land management at any time. Please follow any notices. You can get information about Open Access areas and other access land in Wales on the Countryside Council for Wales' website at www.ccw.gov.uk or ring the Countryside Council for Wales Enquiry Line on 0845 130 6229 (Monday to Friday).

The Country Code

Follow the Countryside Code wherever you go. You will get the best out of the countryside and help to maintain it now and for the future.

- Be safe - plan ahead and follow any signs
- Leave gates and property as you find them
- Protect plants and animals, and take your litter home
- Keep dogs under close control
- Consider other people

Taking your Dog

Please ensure that your dogs are under close control at all times. Take particular care that your dog doesn't scare sheep and lambs or wander where it might disturb ground-nesting birds and other wildlife.

Caution

Do not enter or disturb any abandoned mine buildings as they may be unstable. Please follow waymarked paths around buildings. It is up to the individual to take responsibility for their own health and safety; children should be supervised at all times. The structures are on land mapped as Open Country and not under the ownership or control of Denbighshire County Council.





Corwen-Cynwyd

Gan gychwyn yng Nghorwen, mae'r llwybr yn dilyn yr hen reilffordd (wedi cau) o Gorwen i Gynwyd sy'n rhedeg ar lannau'r Afon Ddyfrdwy i bentref Cynwyd.

Rhan o'r lein o Riwabon i'r Abermo oedd rheilffordd **Corwen i Gynwyd**. Byddai ymwelwyr â glan y môr yn arfer â theithio ar y lein yma a agorodd yn 1866 a chau yn 1968. Daeth yr hen lein trên yn gynefin pwysig i fywyd gwyllt pan dyfodd y coed a'r glaswelltir ar ochrau'r lein.

Gall dyfroedd glân yr **Afon Ddyfrdwy** sy gerllaw gynnal nifer o blanhigion ac anifeiliaid, gan gynnwys rhai prin fel Dyfrgi, Eog a'r Fisglen Berlog. Cafodd y safle ei ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn Ardal o Gadwraeth Arbennig er mwyn diogelu'r bywyd gwyllt sydd yma.

Roedd **Eglwys Llangar** yn cael ei defnyddio o tua 1291 hyd nes codwyd eglwys newydd yn ei lle yng Nghynwyd yn 1874. Gwelir nifer o nodweddion o'r canol oesoedd y tu mewn i Eglwys Llangar, fel murlun gyda'i lun dychrynlyd o angau, sy'n deillio o'r 17eg ganrif. (Cadw sy'n rheoli'r Eglwys gan gynnig teithiau tywysedig o'i chwmpas. Ffoniwch 01490 412025 yn yr haf neu 01483 336103 i gael mwy o wybodaeth.)



*Tref farchnad hanesyddol Corwen
The historic market town of Corwen*

Pellter: 3.6 km / 2.25 milltir
Graddfa: Hawdd



Corwen-Cynwyd

Distance: 3.6 km / 2.25 miles
Difficulty: Easy

Starting at Corwen, the route follows the disused Corwen to Cynwyd Railway line, running alongside the River Dee, to Cynwyd village.

The **Corwen to Cynwyd** railway was part of the Ruabon to Barmouth line, carrying holidaymakers to the coast. It opened in 1866 and closed in the 1968. The disused line has become an important wildlife habitat as the woodland and grassland edging the track has flourished.

The clean waters of the nearby **River Dee** also support many plants and animals, including rarities such as Otter, Salmon and Freshwater Pearl Mussel. It is designated as a SSSI (Site of Special Scientific Interest) and SAC (Special Area of Conservation) to conserve its wildlife value.

Llangar church was used from about 1291 until it was replaced by a new church in Cynwyd in 1874. Internally it retains many medieval features including wall paintings as well as a macabre 17th century figure of death. (The church is managed by Cadw who offer guided tours, telephone 01490 412025 in summer or 01483 336103 for further information.)



*Eglwys Llangar
Llangar church*



*Telwr y Cnau
Nuthatch*

Edrychwch am...

Telwr y Cnau, Dringwr Bach, a'r Gnocell Fraith Fwyaf yn dringo i fyny boncyff coeden gan chwilio am bryfed, Llwyd y Gwrych a'r Dryw bach yn y llwyni, a'r Nico yn bwyta hadau'r glaswellt ac ysgall.

Look Out For...

Nuthatch, Treecreeper and Greater Spotted Woodpecker climbing up the tree trunks looking for insects; slender Dunnocks and tiny Wrens in the scrub or Goldfinches feeding on the seedheads of grasses and thistles.



Cynwyd-Moel Fferna

O bentref Cynwyd, fe â'r llwybr yn ei flaen drwy'r goedwig goniffer i'r rhostiroedd agored gan ddringo'n raddol i ben Moel Fferna.

O ben **Moel Fferna** - man uchaf Llwybr Gogledd y Berwyn - ymestynna'r bryniau grugog i bob cyfeiriad. Mae golygfeydd am bellter; tua'r Gogledd i Fynyddoedd Llantysilio a Moelydd Clwyd, i'r Gorllewin tua'r Arennig, ac i'r De i Fryniau'r Berwyn.

Mynyddoedd y Berwyn yw un o'r ardaloedd ehangaf a mwyaf deniadol o rostiroedd uchel sy'n dal i fodoli yng Nghymru. Dynodwyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn Ardal Cadwraeth Arbennig i gydnabod eu pwysigrwydd amgylcheddol. Ar y priddoedd sur fe ffynna'r Grug, y Llus, a'r Creiglys y mynydd. Datblygodd yr Orgors ar y mannau gwlypaf lle gallwch weld blodau Plu'r Gweunydd, Mwsogl y Fawnog a phlanhigion eraill anghyffredin fel Gwlithlys a Thafod y Gors, sy'n 'bwyta' pryfed.

I adar ysglyfaethus, mae'r mynydd gwyllt yn lle delfrydol am eu bod yn cael cyfle i fagu cywion heb rwystr ac am fod eu hysglyfaeth - mamaliaid ac adar bach - yn niferus ymysg y grug a'r glaswelltir garw.



Y tu isaf i Foel Fferna / Below Moel Fferna

Pellter: 8.4 km / 5¼ milltir
Graddfa: Anodd (dringo'n raddol)



Cynwyd-Moel Fferna

Distance: 8.4 km / 5¼ miles
Difficulty: Difficult (steady ascent)

From Cynwyd, the path leads through conifer forest onto the open moorland, climbing steadily to Moel Fferna summit.

From the summit of **Moel Fferna**, the highest point of the North Berwyn Way, rolling heather-clad hills stretch away in every direction. There are panoramic views north to the Llantysilio Mountains and the Clwydian Range, west to the Arennigs and south to the Berwyn Range.

The Berwyns are one of the largest and most attractive areas of upland heath remaining in Wales, designated as a SSSI (Site of Special Scientific Interest) and SAC (Special Area of Conservation) in recognition of their environmental importance. Heather, Bilberry and Crowberry flourish on the poor acidic soils. Blanket bog has developed on the wetter areas, where white flowered Cotton Grass, bog mosses and unusual 'insect-eating' plants like Sundew and Butterwort thrive.

These wild and peaceful mountains are ideal habitats for many birds of prey as they have a good chance

of breeding without disturbance and their prey of small mammals and birds are plentiful in the heather and rough grassland.



Yr olygfa ar Foel Fferna tua'r gorllewin / View west from Moel Fferna



Gwiwer Goch
Red Squirrel

Edrychwch am...

Efallai gwelwch y Wiwer goch, sy'n prnhau'n gyflym, mewn coed conifer yn Ne Sir Ddinbych, fel Coedwig Cynwyd. Gostyngodd niferoedd y wiwer dlos frodorol hon pan gyflwynwyd Gwiwer Fawr America yn yr 1870au. Fel y Gwiwerod Llwyd, maent yn cuddio'u bwyd yn y ddaear ac yn byw mewn nythod crwn yn y coed, ond maent yn fwy swil ac anodd eu gweld.

Look Out For...

The increasingly rare Red Squirrel is still found in conifer woodlands in South Denbighshire, at Cynwyd Forest. Numbers of this pretty native squirrel have been declining since the larger American Grey Squirrel was introduced to Britain in the 1870s. Like Grey Squirrels, they hide their food in the ground and live in dreys, a spherical nest in the trees, but they are shy and harder to see.



Cloddio am Lechi



Quarrying the Slate



Torri'r slabiau / Splitting slabs

Yn uchel ar lethrau'r bryn, y tu isaf i gopa Moel Fferna, mae clwstwr o adfeilion a thomenni llechi sy'n ymestyn fel bysedd o'r gweithfeydd canolog. Dyma'r cyfan sydd ar ôl o chwarel lechi Moel Fferna. O dan y ddaear y cloddiwyd am y llechi a hynny drwy ffrwydro'r graig yn ofalus gan greu agorydd anferth oedd fel ogofeydd tanddaearol. Byddai'r darnau o lechfaen yn cael eu hollti er mwyn iddynt fod yn haws eu rhoi mewn wagenni a fyddai'n cael eu gwthio i'r wyneb drwy'r lefel hir. Caent eu hollti a'u naddu'n llechi yn y felin fawr.



Olion y felin / Mill remains

Yn is i lawr y bryn roedd Chwarel Slabiau Glannau Dyfrdwy. Chwarel agored oedd hon, a gallwch weld wyneb y graig lle tynnwyd y llechfaen ohoni. Defnyddiwyd y slabiau i wneud byrddau llawdriniaeth, fatiau chwisgi, cerrig beddi, ac i adeiladu.

Ar eu hanterth yn 1901, roedd y chwareli hyn yn cyflogi dros 200 o ddynion a arferai gerdded i fyny i'r mynydd bob dydd o Garrog ac o Lyndyfrdwy. Yn raddol, lleihaodd y galw am lechi ac fe gaeodd y chwarel slabiau yn 1923 ar ôl damwain angheuol pan fu farw dau o'r tri gweithiwr oedd yn dal i weithio yma. Parhaodd Chwarel Moel Fferna am gyfnod hirach gan gau yn 1960 am ei bod hi'n anodd cael chwarelwyr i weithio yma ac am fod y cystadlu yn erbyn teils a fasnynrchwyd yn cwtogi'r elw.



*Dyn diogelwch yn clirio'r creigiau rhydd
Dangerman clearing loose rock*

High on the hillside, below the summit of Moel Fferna a cluster of derelict buildings and grey spoil heaps, radiating like fingers from the central workings, are all that remain of Moel Fferna slate quarry. The slate was quarried underground by carefully blasting the rock, creating huge cavern-like chambers. The huge slate blocks were spilt into moveable pieces, hoisted onto wagons and pushed to the surface through long tunnels. Here they were split into slates in the large mill.

Deeside Slab Quarry, lower down the hillside, was a surface quarry. You can clearly see the exposed rock faces from where the slabs were taken. They were used for operating tables, whisky vats and for buildings.



*Hen adeilad chwarel
An old quarry building*

At their peak in 1901 the quarries employed over 200 men who walked up the hillside each day from Carrog and Glyndyfrdwy. Demand for slabs gradually dwindled and the slab quarry closed in 1923, following a serious accident that killed two of the remaining three workers. Moel Fferna Quarry continued longer, closing in 1960 when it had become difficult to recruit quarrymen and competition from mass-produced tiles had reduced profits.



Creigiwr wrth ei waith / Rockman drilling



*Esgid hoelion mawr?
Quarryman's hobnail boot?*

Edrychwch am...

Mae'r llechi tywyll a gloddiwyd o'r graig yn yr ardal yma yn rhai salach na llechi'r chwareli mawr yng Ngwynedd. Mewn lleoedd oer a gwlyb maent yn malu ac yn troi'n ôl i lwch yn y diwedd. Gallwch weld enghreifftiau o'r llechi chwilfriw ymhobman yma. Allforiwyd llawer o lechi to i'r gwledydd poeth ble roeddynt yn para'n hirach.

Look Out For...

The dark slate extracted was poorer quality than that from the larger Gwynedd quarries and, in cold damp conditions, gradually crumbled and turned back to shale. You can easily find examples of this crumbling slate. Many of the Moel Fferna roofing slates were exported to hotter countries where they were more durable.



Cylch y Chwarel

Dechreuwch o Lidiart y Parc neu o Lyndyfrdwy. Dringa'r llwybr cylch hwn drwy'r goedwig i'r rhostiroedd agored, yna mae'n dilyn ffordd hen dramffordd y chwarel ar ochr y bryn. Gallwch orffen y cylch drwy ddefnyddio Llwybr Dyffryn Dyfrdwy neu'r trê'n stem a dod yn ôl i'ch man cychwyn.

Pellter: 10.4 km / 6.5 milltir
Graddfa: Anodd (yn bellach gyda pheth dringo)

O'r fro hon roedd **Owain Glyndŵr** yn hanu. Roedd yn berchen dau gartref yn yr ardal, un yn Lliidiart y Parc a'r llall dros fynydd y Berwyn yn Sycharth, ger Croesoswallt. Efallai iddo ddefnyddio llwybr rhwng y ddau dŷ gan ddod i lawr yn ymyl Coedwig Carrog i Lliidiart y Parc.



*Nant y Pandy
Nant Y Pandy Stream*

Edrychwch am olion **Melin Nant y Pandy** a fyddai'n ffrwyno grym y nant gyflym i yrru'r llifiau oedd yn torri llechfeini'n slabiau i'w defnyddio mewn ysbytai, bragdai, i adeiladu ac i wneud cerrig beddi. Cludwyd y llechi ar y dramffordd i'r orsaf yng Nglyndyfrdwy i'w hanfon at gwsmeriaid mewn rhannau eraill o Brydain ac i'w hallforio.

Edrychwch am...

Bydd y nant garegog gyflym yn denu Bronwen y Dŵr, yr aderyn bach sydd â'r fron wen a welir yn siglo i fyny ac i lawr ar ben carreg neu'n gwibio'n chwim uwchben wyneb y dŵr. Maent yr un mor gartrefol o dan y dŵr hefyd, gan chwilio gwely'r afon am bryfed neu bysgod i'w bwyta. Gallant nofio'n dda.





Quarry Circuit

Distance: 10.4 km / 6.5 miles
Difficulty: Difficult (longer with some ascent)

Starting from Lliidiart y Parc or Glydyfrdwy, this circuit climbs through woodland to the open moorland then follows the route of the former quarry tramway along the hillside. You can complete the loop using the Dee Valley Way or the steam train to return to your starting point.

Medieval Welsh hero **Owain Glyndŵr** originated from this area. He had two homes locally, one at Lliidiart y Parc and the other over the Berwyns at Sycharth, near Oswestry. He may have used a route linking both houses, descending through Carrog Plantation to Lliidiart y Parc.



*Llifio slabiau yn y felin
Sawing slate slabs inside the mill*

Look for the remains of **Nant y Pandy Mill** that harnessed the power of the fast flowing stream to drive saws that cut the blocks of slate from the hillside quarries into slabs for use in hospitals, breweries, buildings and for gravestones. The slate was taken via the tramway to the station at Glyndyfrdwy for transportation to customers

in other parts of Britain and to southern ports for export.



*Bronwen y Dŵr
Dipper*

Look Out For...

The fast flowing rocky stream attracts Dippers, small perky brown birds with a white bib, often seen bobbing up and down on rocks or flying swiftly above the water. They are equally at home underwater, searching stream-beds for small insects and fish to eat. They are also strong swimmers.

Creigiau a Ffosiliau

Cerrig llaid silwraidd yw'r creigiau sydd ar fynydd y Berwyn. Cawsant ei dyddodi yma tua 420 o filiynau o flynyddoedd yn ôl pan roedd Cymru yn gorwedd yn hemisffer y De ac ardal y Berwyn yn ddwfn o dan fôr cynnes. Dros gyfnod o filiynau o flynyddoedd fe wasgwyd y mwd gan ffurfio cerrig llaid. Yn ddiweddarach, gwrthiodd symudiadau'r ddaear y mynyddoedd i fyny; ac oherwydd y pwysau a'r gwres a ddaeth yn sgil y symudiadau hyn fe drodd yr haenau o gerrig llaid yn **llechi** ac yn greigiau metamorffig. Yn ystod yr Oes Iâ diwethaf, a ddaeth i ben rhyw 14,000 o flynyddoedd yn ôl, roedd gogledd Cymru wedi'i orchuddio gan rewlifoedd. Cerfiodd haen o rew, oedd yn filltir o drwch, y dirwedd gan lunio'r cymoedd a'r dyffrynnoedd pedol a llyfnhau'r mynyddoedd.

Roedd **Graptolitau** - anifeiliaid di-asgwrn cefn bach sy'n ddiflanedig bellach - yn gyffredin iawn yn y môr cynnes. Gwelir eu holion ffosiledig ledled y byd mewn cerrig llaid sydd o'r un cyfnod. Dyma un ffordd y gall daearegwyr amcangyfrif dyddiad y creigiau.

Ar ddiwedd yr 19eg a dechrau'r 20fed ganrif fe ddaeth y daearegwyr arloesol Gertrude Elles ac

Ethel Wood o hyd i Graptolitau yn y chwareli ar fynyddoedd Gogledd y Berwyn ac yn ddiweddarach fe ysgrifenasant lyfr am eu hymchwil oedd yn bwysig yn fyd-eang.

Roedd daearegwraig yn anghyffredin iawn yn y cyfnod hwn, a synnai pobl o weld gwragedd dosbarth canol ar eu pennau eu hunain allan yn y wlad. Cofnoda rhyw fyfyrwr yn ei ddyddiadur iddo glywed trefeddiannwr yn ceryddu Ethel Wood yn llym am iddi fod allan heb unrhyw un yn ei gwarchod. Derbyniodd Gertrude Elles wobr Cronfa Lyell oddi wrth Gymdeithas Ddaearegol Llundain yn 1900, ond ni allodd ei dderbyn am nad oedd merched yn cael mynychu'r cyfarfodydd!



*Ethel Wood (ar y chwith) Gertrude Elles (ar y dde)
Ethel Wood (on left) Gertrude Elles (on right)*

*Drwy garedigrwydd Amgueddfa Daeareg Lapworth, Prifysgol Birmingham
Courtesy of the Lapworth Museum of Geology, University of Birmingham*

Edrychwch am...

Gallwch ddod o hyd i graptolitau yn y gwastraff llechi. Mae'r ffosiliau hyn yn debyg i farciau pensil. Olion wedi'u cadw ydynt o'r sylwedd caled roedd creaduriaid corff meddal yn byw ynddo. Tybir eu bod yn perthyn i'r Seren fôr a'r Draenog y môr. Mae croeso i chi dynnu lluniau, ond peidiwch â dwyn y ffosiliau.

Rocks and Fossils



*Adluniad o Graptolitau
Reconstruction of Graptolites*



*Drwy garedigrwydd Peter Crowther
Courtesy of Peter Crowther*

The rocks of the Berwyns are **Silurian mudstones** deposited 420 million years ago, when Wales was in the southern hemisphere and the Berwyn area lay beneath a warm, deep sea. Over millions of years the mud was gradually compacted to form mudstones. Later Earth movements pushed up the mountains and increases in pressure and heat caused by these movements changed the layers of mudstones into **slate**, a metamorphic rock. During the last Ice Age, which ended 14,000 years ago, North Wales was covered by glaciers and a mile thick ice sheet, which sculpted the landscape, gouging out cwms and U-shaped valleys, and smoothing the mountains.

Graptolites, tiny, extinct colonial invertebrates, were abundant in the warm seas and their fossilised remains are found in mudstones of similar age across the world. They are used by geologists to date rocks.

During the late 19th & early 20th Centuries, pioneering geologists, Gertrude Elles and Ethel Wood, found Graptolites in the quarries on the North Berwyns and later wrote an internationally important book of their research.

Women geologists were unusual and middle-class women alone in the open country raised eyebrows in those days. An extract from a student diary records hearing Ethel Wood being firmly told off by a landowner for being out without a chaperone! Gertrude Elles was awarded the Lyell Fund of the Geological Society of London in 1900, but was unable to collect it since women were barred from the meetings!



*Ffosiliau Graptolite
Graptolite Fossils*



Look Out For...

You can find Graptolites in the slate waste. The fossils look like pencil marks and are the preserved remains of the hard material in which the colonies of soft-bodied creatures lived. It is thought that they were related to Starfish and Sea-Urchins. Please take photos but do not take fossils.



Coedwig Nantyr - Ffynnon Las

Â'r llwybr yn ei flaen ar hyd ymyl y goedwig gyda'r rhostir i'r gogledd iddo cyn disgyn yn raddol i lawr Mynydd y Feifod a dros y rhostiroedd agored i Ffynnon Las.

Ar gopa Mynydd y Feifod mae **carnedd gladdu o Oes Yr Efydd**, ac un arall ar frig y bryn cyfagos. Awgryma hyn fod pobl Oes yr Efydd yn gwneud defnydd o'r ardal, yn clirio'r

llethrau oedd yn is i lawr ac yn claddu'u meirw ar y tir uchel.



Pobl Oes yr Efydd / Bronze Age people

Cafodd y rhostir o gwmpas Mynydd y Feifod ei reoli ar gyfer saethu'r rugiar ers dechrau'r 20 fed ganrif. Chwiliwch am linellau o gerrig a phridd, dyma'r cloddiau saethu sy'n cysgodi'r gynau

ac yn cuddio'r saethwyr rhag yr adar a gaiff eu gyrru ar draws y mynydd gan y curwyr. Byddai'r ciper yn llosgi'r grug yn rheolaidd er mwyn gofalu bod digon o egin newydd ar gyfer y grugieir ifanc. Roedd rheoli fel hyn yn lles i rywogaethau eraill o adar ac anifeiliaid hefyd gan rwystro'r rhostiroedd grug rhag troi'n ôl yn dir prysgwydd.

Efallai ichi sylwi ar lyn bach o ddŵr. Mae'n bosib mai man i hudo hwyaid iddo oedd hwn yn wreiddiol, cafodd ei lunio'n ofalus i ddenu'r hwyaid gwyllt i'r ffos gyfagos a'r rhwydi gan ei gwneud yn hawdd eu dal.

Edrychwch am...


Efallai y clywch grawc y Gigfran wrth iddi hedfan heibio'n araf, neu alwad y Bwncath, fel cath yn mewian, yn cylchu uwchben. Hawdd adnabod galwad hiraethus y Gylfinir sydd â gylfin (pig) hir, mae hi'n magu cywion ar y rhostir yn yr haf. Yn aml iawn fe welwch Tinwen y Garn, sydd yn llai a'i phen-ôl yn wyn, yn sefyll ar ben craig neu bostyn. Ymwelydd haf yw hi.



Nantyr Forest - Ffynnon Las

Distance: 5.6 km / 3.5 miles
Difficulty: Difficult (open moorland, some ascent)

The path continues along the forest edge with moorland to the north, then gradually ascends Vivod Mountain and continues across the open moorland to Ffynnon Las.



The summit of Vivod Mountain is crowned by a **Bronze Age burial cairn** with a second nearby on the crest of a hill. This suggests the area was used by Bronze Age peoples who probably cleared and farmed the lower slopes but would bury their dead on the higher land.

The moorland around Vivod Mountain has been managed for grouse shooting since the early 20th century. Look for the lines of stone and turf shooting butts that provide shelter for the guns, and also conceal them from the birds who are driven across the moorland towards them by teams of beaters. The keepers regularly burn the heather to ensure a good supply of fresh shoots for the young grouse. This management also benefits other animal and bird species and prevents the heather moorland reverting to scrub.

You may also notice a small pond. This may have originally been a duck decoy, carefully designed to lure wild ducks into an adjoining netted ditch for easy capture.



Y Gylfinir Curlew

Look Out For...

You may hear the hollow croak of a Raven as it flies slowly by or the mewing call of Buzzards as they circle overhead. Curlews, easily recognised by their long down curving beak and plaintive 'coor-lee' cry, breed on the moorland in the summer. The smaller white-rumped Wheatear, often seen perched on a rock or post, is another common summer visitor.

Ffynnon Las - Llangollen

O Ffynnon-Las mae'r llwybr yn dilyn ffordd amlwg sydd â choed ar y naill ochr a'r llall, cyn disgyn yn raddol drwy'r caeau i lawr i dref Llangollen ar lan yr Afon Ddyfrdwy.

Pentref cymharol fychan oedd **Llangollen** cyn i Thomas Telford adeiladu'r ffordd A5 i Gaerbybi drwyddo yn 1815. Daeth masnach a chyfoeth i Llangollen oherwydd y ffordd newydd, ac fe dyfodd yn dref Fictoriaidd ffyniannus dros ben gan ddenu ymwelwyr i fwynhau harddwch glannau'r afon gyda'r mynydd yn gefndir i'r dref.

Canol y dref yw'r bont o'r 14 ganrif y mae sôn amdani yn y rhigwm enwog am Saith Rhyfeddod Cymru.

Rhwng 1790 ac 1831 roedd **Plas Newydd**, Llangollen yn gartref i ddwy Wyddeles fonheddig, Lady Eleanor Butler a Sarah Ponsonby. Galwyd hwy yn Ladis Llangollen ac roedd eu cyfeillgarwch yn destun diddordeb a sgandal ymhlith cymdeithas Oes y Rhaglywiaeth. Daeth nifer o bobl lenyddol a dylanwadol i ymweld â hwy, gan gynnwys Wordsworth, Sir Walter Scott, Yr Arglwydd Byron a'r Duke of Wellington.



*Yr Afon Ddyfrdwy yn Llangollen
The River Dee at Llangollen*



Pellter: 2.4 km / 1.5 milltir
Graddfa: Canolig (i lawr yn raddol ond byr)

Ffynnon Las - Llangollen

Distance: 2.4 km / 1.5 miles
Difficulty: Moderate (short but steady descent)

From Ffynnon-Las the path follows a clear tree-lined track, descending steadily through hedged fields, into the riverside town of Llangollen.

Until Thomas Telford built the A5 to Holyhead through **Llangollen** in 1815, Llangollen was a relatively small village. The new road brought trade and wealth to Llangollen which rapidly grew to be a thriving Victorian town, drawing visitors to enjoy its picturesque riverside setting with its mountain backdrop.

The focal point of the town is the 14th century bridge, celebrated in the famous rhyme as one of the Seven Wonders of Wales.

From 1790 to 1831 two upper class Irish ladies, Lady Eleanor Butler and Sarah Ponsonby, made their home at **Plas Newydd**, Llangollen. Known as the Ladies of Llangollen, their friendship fascinated and scandalised Regency society. They were visited by many literary and powerful figures, including Wordsworth, Sir Walter Scott, Lord Byron and the Duke of Wellington.



*Rhan dlos o gamlas Llangollen
A pretty stretch of the Llangollen Canal*

*Bysedd y Cŵn
Foxglove*



Edrychwch am...

Ychydig iawn o newid a fu i'r dirwedd hon - y lonydd suddedig a chaeau bach gyda gwrychoedd o'u cwmpas - nodweddion sydd yn dal yr un fath ers canrifoedd. Ffynna'r blodau gwyllt wrth ochrau'r llwybrau a'u hymylon o goed. Chwiliwch am lygad Ebrill ar ddechrau'r gwanwyn yna'r clystyrau o Serenllys y Gors, Bysedd y Cŵn tal, a'r Gwyddfdd yn dringo yn yr haf.

Look Out For...

This landscape of sunken lanes and small fields, edged by hedgerows has been largely unchanged for hundreds of years. Wildflowers abound along the tree-lined track. Look for Celandines in early spring, followed by clumps of white stitchworts, with tall Foxgloves and clambering Honeysuckle later in the summer.

Bioamrywiaeth

Biodiversity



Dyfrgi / Otter

Lle gwych yw Dyffryn Dyfrdwy i fywyd gwylt. Oherwydd y cymysgedd o fynydd-dir a rhosydd, ambell goedwig conifer a choed brodorol, dolydd, a'r Afon Ddyfrdwy ei hun ceir yma ecoleg leol gyfoethog ac amrywiol. Bydd pob un o'r cynefinoedd yn cynnal nifer rhyfeddol o blanhigion ac anifeiliaid, gan gynnwys rhai rhywogaethau sy'n brin yn genedlaethol ac yn fyd eang.

Ffynna'r Eog yn nŵr glân yr Afon Ddyfrdwy ac mae niferoedd y Dyfrgwn a'r Llygod y Dŵr yn cynyddu hefyd. Mae'r Fisglen Berlog, sy'n brin, yn dal i'w gweld mewn ambell ran o'r afon.

Y lle gorau i'r Rugiar Ddu yw'r tir rhwng y goedwig conifer a'r rhostiroedd grug. Mae ei niferoedd yn cynyddu ar Fynydd y Berwyn a Mynydd Llantysilio, i'r gogledd o'r Afon Ddyfrdwy.

Mae rhostiroedd agored Mynyddoedd y Berwyn yn ddelfrydol i'r adar ysglyfaethus hela'n ddi-rwystr. Yn eu plith ceir Boda Tinwyn, Hebog Tramor, Cudyll Bach a'r Barcud. Dyma un o safleoedd pwysicaf Ewrop i'r adar hyn. Cafodd ei dynodi'n Ardal Gwarchodaeth Arbennig er mwyn gwarchod yr adar a diogelu'u cynefin.

Ambell waith ceir cip ar y Wiwer Goch yn y goedwig goniffer yn ardal Corwen.



Llygoden y Dŵr / Water Vole

Edrychwch am...

Y Barcud yw'r aderyn ysglyfaethus mwyaf ar y rhostir. Dyma aderyn sy'n fwy ei faint na'r Bwncath. Gallwch ei weld yn hofran ac yn gleidio uwchben. Edrychwch am y gynffon fforchog nodweddiadol. Adenydd hir a phigfain sydd gan y Boda Tinwyn, mae'n hedfan yn is ar draws y rhostir. Mae'r ddau hebog yn adar llai. Bydd yr Hebog Tramor yn plymio'n gyflym gan ddal colomennod neu rugieir yn yr awyr. Mae'r Cudyll Bach yn hedfan yn isel, yn gyflym ac yn unionsyth ar draws y tir agored gan chwilio am ysglyfaeth.

The Dee Valley is a wonderful place for wildlife. Its mix of mountainous moorland, with pockets of conifer and native woodlands, meadows and the River Dee itself creates a rich and diverse local ecology. Each habitat supports a fascinating range of plants and animals, including a number of nationally and internationally rare species.

Atlantic Salmon thrive in the clean waters of the River Dee and numbers of Otters and Water Voles are also increasing. The rare Freshwater Pearl Mussel can still be found at a few places in the river.

The endangered Black Grouse does best where conifer forest meets heather moorland. Its numbers are increasing in the Berwyns and Llantysilio Mountains to the north of the river.

The open moorland of the Berwyn Mountains provides undisturbed hunting and breeding grounds for birds of prey including rare Hen Harriers, Peregrines, Merlins and Red Kites.



Grugiar ddu / Black Grouse

Look Out For...

The Red Kite is the largest bird of prey on the moorland, bigger than the more common Buzzard. You may be lucky enough to see one hovering and gliding overhead. Look for its distinctive forked tail. Hen Harriers have long pointed wings and fly lower across the moors. The two falcons are smaller. The Peregrine dives at great speed from the sky, catching pigeons or grouse in flight, whereas the smaller Merlin flies low, fast and level across the open ground in search of prey.



Barcud / Red Kite

It is one of the most important sites in Europe for these birds and has been designated as a Special Protection Area to protect the birds and conserve their habitat.

The Red Squirrel is still occasionally glimpsed in the conifer woodlands around Corwen.



Cudyll bach / Merlin